

14 Y Methodistiaid Wesleidd ¹

Y pregethwr Wesleidd cyntaf, y mae gennym hanes amdano, i ymweled â Niwbwrch oedd y Parch. John Hughes, a hynny ym mis Hydref 1803. Yr hwyr o'r blaen a'r bore hwnnw bu yn pregethu yn yr awyr agored - Weslead o'r iawn ryw - i gynnulleidfa o 500 i 600 o bobl yn Aberffraw. Yn y prynhawn, ar ôl taith flin dros dywod Malltraeth, cyrhaeddodd Niwbwrch, lle'r oedd torf luosocach nag yn Aberffraw yn disgwyl amdano, a llawer ohonynt wedi anobeithio am ei weled.

Yn fuan wedyn, dilynwyd ef gan Mri. Bryan a J. Morris. Yn adeg Cyfarfod Chwarterol Rhagfyr 1803, ceir bod yno 12 aelod eglwysig, heblaw 70 a oedd yn Aberffraw. Ymysg y rhai cyntaf i ymuno â'r achos yn Niwbwrch yr oedd Mr. Hugh Owen, Rhudd-gaer, a Thomas Owen² ei fab; Thomas Hughes, Rhedyn-coch, a'i wraig; Jane Jones; Jane Lloyd, Carreg-yr-eithin, a Jane Owen; Robert Morris, y Felin Wynt, a Robert Williamson (*Bardd Du Môn*).

Ymgymrodd y cyfeillion ag adeiladu eu capel, y cyntaf a godwyd i'r Wesleaid ym Môn, yn y flwyddyn 1804. Adeilad bychan ydoedd, ond ystyrir ef yn un mawr i'r lle y pryd hynny, er nad oedd yn arddangos llawer o brydferthwch na harddwch celfyddydol, gan mai ar gynllun ysguboraidd y cafodd ei weithio.³

Y blaenor cyntaf oedd Hugh Williams o Ddwyran, a dilynwyd ef gan Hugh Roberts, y naill fel y llall yn ffyddlon a selog o blaid yr achos yn ei wendid. Yng ngwyneb ymosodiadau ac erledigaeth yr oes honno, glynodd aelodau yr eglwys fach hon yn deyrngarol i'w ffydd a'u henwad, fel y canodd yr hen chwaer Jane Lloyd: -/171/

Myn'd yn mlaen mae f'enaid i,
Hosanna Haleliwia,
O don i don i'r Ganaan fry,
Hosanna, Haleliwia,
Er bod gelynyon ar bob llaw,
A gorfod cario'n cleda,
Caf gario palmwydd 'r ochr draw,
Hosanna Haleliwia.

Ond pan fu farw y tŷ selog cyntaf, aeth yr achos yn egwan, er i gyfeillion Aberffraw wneud cryn aberth i'w cynorthwyo.

¹ Am hanes yr achos yn fwy manwl gweler *Yr Eurgrawn Wesleidd*, Awst 1869 (Bangor: W. Davies); *Hanes Wesleyaeth Gymreig*, gan Dr. Hugh Jones (Bangor: Evan Thomas), tt. 1337-8; a *Origin and History of Methodism in Wales and the Borders*, by David Young (London: Charles Kelly, 1895),

² Trigai Thomas Owen yn yr Hen-bont yn agos i'r *Stars* a bu yn bregethwr cynorthwyol am rai blynyddoedd.

³ Ceir manylion am werthiant y tir i adeiladu'r capel arno ar tt. 173-4

Bu cenhadwr cartrefol yn gofalu am yr achos am oddeutu tair blynedd (1898 - 1901), ond parhau yn ddilewyrch yr oedd er pob ymdrech. Yn 1915 gwerthwyd yr adeilad i Mr. W. D. Evans, Pen-y-bonc, a Miss Mary Hughes, Tyddyn-y-tlodion, a gafodd y dodrefn. Arwyddwyd y gwerthiant gan Mr. J. R. Williams, Trefri, Bodorgan, a Mr. John Pritchard, Siop, Aberffraw. Defnyddir yr adeilad erbyn hyn fel modurfa.

Gan fod Robert Williamson yn gysylltiedig â'r achos Wesleidd yn Niwbwrch, rhoir yma ychydig o'i hanes ef a hefyd ei fab Owen.

Yn Helygain, sir Flint, y ganwyd Robert Williamson, "Bardd Du Môn", yn 1807. Garddwr oedd ei dad yng Nghastell Helygain ac yn ddyn darllengar, deallgar ac eang ei syniadau. Ychydig iawn os dim ysgol a gafodd Robert ym more'i oes, a phan oedd yn 12 oed symudodd gyda'i rieni i Lanwnda yn Arfon, lle y gweithiai'r tad fel garddwr ym Mhlas Llanwnda. Cymerodd offeiriad y plwyf ddiddordeb yn y bachgen, a dysgodd ef fel y daeth yn ysgolhaig da ac i fedru siarad Ffrangeg yn lled rwydd.

Am dymor bu'n cadw ysgolion yn Llanwnda, Bont-newydd a Llanrwst. Pan oedd yn 18 oed clywodd fod eisiau ysgolfeistr yng Nghaergybi, ac ar ei ffordd yno, troes i mewn i siop un John Prichard yn Niwbwrch, i geisio baco. Canfu'r siopwr mai ysgolfeistr ydoedd, canys gwisgai gadach gwyn yn ôl defod ysgolfeistriaid y cyfnod hwnnw. Gan fod angen ysgolfeistr yn Niwbwrch, perswadiodd John Prichard ef i gychwyn ysgol yn y dreflan. Felly a fu, drwy gymorth y Parch. Henry Rowlands, y periglor, a haelioni y Parchn. John a Hugh Prichard, Dinam, ei guradiaid yn eu tro.

Priododd yn 1830 âg un Jane Roberts o Niwbwrch, gwraig fechan, sionc a diwyd; ac yma daeth yn enwog fel bardd, a hynny yng nghanol trafferth magu teulu mawr o blant. Ni chododd y pentref yr un bardd cymaint ag ef.

Cyfansoddodd lawer iawn. Ymhlith ei gynhyrchion gellid enwi: Englynion Pont Menai yn eisteddfod Biwmares, 1832; Englynion Mynydd Parys yn Llannerch-y-medd, 1833; Marwnad i Mr. Oakley yn Ffestiniog, 1834; Marwnad i Syr Watcyn Wynn yn Llynlleifiad, 1840; Marwnad i Henry Rowlands yn Niwbwrch, 1842; Pryddest Afon Menai yn eisteddfod Aberffraw, 1849; Awdl y /172/Greadigaeth yn Aberffraw, 1849; Awdl yr Atgyfodiad (Rhuddlan); Pryddest y Nadolig; Pryddest Doethineb Duw; Pryddest Golygfa Moses o ben Pisgah; Llyfr ar Arddwriaeth; Llyfr ar Seryddiaeth; Gramadeg tair ieithawg, sef Ieithiadur Cymraeg, Saesneg, a Ffrangeg; Y *Self-instructor*, neu Hyfforddiant i Gymro ddysgu Saesneg; Awdl Derwyddiaeth, &c.

Y mae rhai o'r cynhyrchion hyn yn wobrweddig, rhai yn argraffedig, a rhai heb eu hargraffu. Argraffwyd ei bryddest ar y "Nadolig," yn y Rhyl yn 1854, wedi ei farw (yn 1852), a'r bryddest ar "Ddoethineb Duw", trwy ymdrechion ei fab Owen, tua dechrau y ganrif bresennol.

Cafodd brofedigaeth fawr yn eisteddfod Aberffraw, sef colli'r gadair, canys fe'i harweinesid i gredu mai efe a gadeirid, ac ennill cadair oedd uchelgais ei fywyd. Yn ôl Eben Fardd, Emrys a deilyngai'r gadair, yn ôl Iocyn Ddu, Nicander, ac yn ôl Chwaneg Môn y Bardd Du. Chwareuodd Chwaneg y ffon ddwybig, gan ildio i farn Iocyn Ddu, a chyhoeddwyd, heb y defodau arferol, Nicander yn gadeirfardd, a

chododd cynnwrf mawr, a bu helynt flin drwy Gymru gyfan am amser bwygilydd. Ymgeisiasai 12 am y gadair. Aeth Talhaearn “yn wallgo wyllt, a maluriodd ei awdl, dros fil o linellau, ar lwyfan yr eisteddfod; ochneidiai Gwalchmai’n drwm-lwythog, a chai beth cysur wrth feddwl am ‘ddedfryd llys y werin’ melltenai a tharanai Emrys a’i gyfeillion nes crynu ceirydd Abred llechai Nicander yng ngwâl distawrwydd nes myned o’r aflwydd heibio.”

Tair blynedd ar ôl hyn, bu farw’r Bardd Du yn Niwbwrch a chladdwyd ef ym medd ei hoff ferch Margaret ym mynwent eglwys y plwyf. Ar garreg ei fedd, cerfiwyd gan ei fab Owen, yr englynion canlynol o waith Eben Fardd:

Fe roddwyd ym medd Fardd Du Môn, - llenor
Llawn o bethau ceinion;
Mae’n enw a saif mewn lawn sôn
Tra Menai, tua’r minion.

Nid craig fawr, nid carreg fedd, - namyn cân,
Yw maen cof ei fawredd;
Dywed awen hyd y diwedd
Ei fodd, a’i inn, a’i feddwl wedd.

Dywedai Meirionfab amdano:
Yn gorwedd y mae’n gwron - o wir radd
Wareiddiol y Brython;
Rhyw gawr ymhob rhagorion
Y bu’r da, mawr, Bardd Du Môn.⁴

Nid oes wybod a barhaodd y Bardd Du gyda’r enwad Wesleiaidd hyd ddiwedd ei oes, ond i’r Eglwys Sefydledig y perthynai ei /173/fab Owen Williamson, a anwyd yn Niwbwrch yn 1840. Addysgwyd ef gan ei dad, ac yna yng Ngholeg Hyfforddiadol Caernarfon. Bu’n ysgolfeistr am flynyddoedd yn ysgol Llangeinwen ac wedi hynny yn yr Ysgol Fwrdd, Dwyran. Ar ôl rhoddi cadw ysgol heibio, symudodd o Ddwyran i’r Twnti, Niwbwrch, ac oddi yno i un o dal Sefydliad Prichard-Jones. Ond yn yr Angorfa, Dwyran, cartre’r Canghellor Benjamin Jones, ficer y Felinheli, y treuliodd weddill ei oes. Fe’i claddwyd ym mynwent Niwbwrch yn 1910. Dyn dibriod ydoedd, ac arferai fyw gyda’i chwaer a oedd hithau’n ddibriod, ond wedi ei marw hi gofelid amdano gan y teulu a grybwyllwyd. Cyhoeddodd ddau o lyfrau - “Hanes Niwbwrch” a “Cheris y Pwll,” yr olaf yn ramant hanesyddol yn egluro cyfnod yr ymdrech rhwng Goidel a Brython, a ffurfiad y genedl Gymreig. Gwelir aml erthygl o’i waith yn y *Llusern*, y *Genhinen*, *Cymru*, y *Llenor*, &c. Yr oedd yn Gymro cenedlgarol, yn hynafiaethydd da, gërr diddan, di-wenwyn, a diymhongar, ac mor hoff a’i dad o ardd a blodau; un o’r bobl ddoeth a garai’r encilion. Y llynedd (1948) sicrhawyd ei

⁴ Am fanylion ychwanegol gweler R. Hughes, *Enwogion Mon*, tt. 293-4.

Lawysgrifau gan Lyfrgell Coleg y Gogledd, Bangor; yn eu mysg ceir ysgrifau ar “Hanes Môn”, “Lien a Gwerin Môn”, “Morus Llwyd y Dyrnwr”, ac eraill.

Prynant y tir i adeiladu Capel y Wesleiaid arno.

Ar 5 Ionawr 1804, gwnaed *Indenture* (ond ni chafodd ei gofrestru yn *Chancery*) rhwng Owen Owens ar y naill law, a Hugh Roberts a saith o bersonau eraill ar y llaw arall, i werthu am , 10 darn o dir ym mhlwyf St. Pedr, Niwbwrch, yn cynnwys 13 llath wrth 92 llath, ynghyda talcen tí yn terfynu arno, i adeiladu capel i bobl a elwid Methodistiaid mewn cysylltiad â’r diweddar Barch. John Wesley i’r pwrpas o addoli Duw.

Ond yn ôl *Indentures* dyddiedig 22 a 23 Chwefror 1825, ac a gofrestrwyd yn *Chancery* ar 13 Gorffennaf 1825, ceir bod William Owen a dau wr arall wedi cytuno â Thomas Hughes a chwech o bersonau eraill am y swm o ddeg gini am ran o dir Pen-y-gamdda, Niwbwrch (hyd y tir yn 39 troedfedd a’i led yn 282 troedfedd), ac arno gapel wedi ei godi rhyw dro yn flaenorol, ac yn cyflwyno y cyfryw i ymddiriedolwyr a ddewisid yng nghynhadledd flynyddol pobl a elwid yn Fethodistiaid, a sefydlwyd gan *deed poll*, dyddiedig 28 Chwefror 1784, o dan law y Parch. John Wesley, i ddefnyddio y capel i addoli Duw. Yn y weithred rhoddid awdurdod i werthu, ynghyda thelerau i apwyntio ymddiriedolwyr newydd.

Mae’r gweithredoedd uchod wedi eu cofrestru yn llyfrau y *Charity Commissioners*. Cofrestrwyd y capel hwn fel lle i addoliad crefyddol yn ôl cyfraith 18 a 19 Vict. c. 81 ar 20 Gorffennaf, 1894.

Drwy orchymyn Rwrdd y *Charity Commissioners*, dyddiedig 26 Chwefror 1895, apwyntiwyd y personau canlynol yn ymddiriedolwyr i weinyddu yr elusen: Mri. John Roberts Jones, Bod-Feirig; David Williams, Trefriw; John Richards Williams ac Edward Davies Williams, y ddau o Dyddyn-hwrdd; Samuel Williams, Ty’n-llwydan; John Pritchard, Aberffraw; Daniel Hughes, Niwbwrch, ac wyth gërr arall. /174/

Y cynllun a fabwysiadwyd gan y personau hyn i weinyddu yr elusen oedd yr un a geid mewn *Indenture of Release*, a wnaed ar 3 Gorffennaf 1832, rhwng John Sutcliffe a 14 person arall, y Parch. George Marsden, a James Brown, ac a gofrestrwyd yn Llys Uchel yr Arglwydd Ganghellor ar 25 Gorffennaf 1832, sef y *trust deed* am y Capel Wesleiaidd yn Skircoat ymhlwyf Halifax, sir Efrog, ac a adnabyddir yn gyffredin fel “The Wesleyan Chapel Model Deed.”⁵

⁵ *Commissioners=Report on Endowed Charities - County of Anglesey* (1897), p.158.